Estyn

Rhagoriaeth i bawb – Excellence for all

Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru

Her Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

Datganiad i'r wasg

20 Hydref 2009

Ysgolion yn ymateb yn dda i'r nifer gynyddol o blant gweithwyr ymfudol

Mae Estyn, yr arolygiaeth dros addysg a hyfforddiant yng Nghymru, wedi cyhoeddi adroddiad heddiw ar sut y mae Cymru yn cefnogi'r nifer gynyddol o blant gweithwyr ymfudol, yn enwedig o wledydd eraill yn yr Undeb Ewropeaidd.

Canfu arolygwyr Estyn fod nifer y plant gweithwyr ymfudol wedi cyrraedd y nifer uchaf erioed, ond bod ysgolion yng Nghymru wedi llwyddo i sicrhau eu bod yn meithrin perthynas dda â'r dysgwyr hyn a'u bod yn integreiddio'n llwyddiannus ym mywyd yr ysgol.

Yn 2008, ymunodd 410 o blant newydd gweithwyr ymfudol ag ysgolion yng Nghymru. Roedd hyn ar ben y 1,505 o'r dysgwyr hyn a oedd eisoes wedi'u cofrestru. Fodd bynnag, mae nifer y dysgwyr yn amrywio'n sylweddol trwy gydol y flwyddyn ysgol, sy'n ei gwneud yn anodd cael darlun cywir o nifer y dysgwyr sydd ar y gofrestr ar unrhyw adeg.

Dywed Dr Bill Maxwell, Prif Arolygydd Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru, "Mae gan bron pob ysgol a samplwyd gennym drefniadau da ar waith i ddarparu profiadau dysgu sy'n bodloni anghenion a diddordebau'r plant hyn. Er, yn gyffredinol, nid oes digon o hyfforddiant arbenigol o ansawdd da ar gael ar gyfer athrawon, cynorthwywyr cymorth a chydlynwyr ysgol prif ffrwd sy'n gyfrifol am addysgu Saesneg fel Iaith Ychwanegol."

Pan fydd ysgolion yn cael rhybudd ymlaen llaw y bydd plant gweithwyr ymfudol yn eu mynychu, mae llawer ohonynt yn gwneud trefniadau da i gyfarfod â phlant a rhieni ynghyd

â staff arbenigol sy'n gallu siarad eu hiaith gyntaf. Fodd bynnag, mewn rhai awdurdodau lleol, mae cymaint o'r dysgwyr hyn wedi cyrraedd fel bod ysgolion a gwasanaethau cymorth wedi cael anawsterau sylweddol ac, ambell waith, wedi'i chael yn anodd ymdopi. Mae hyn yn arbennig o wir mewn ysgolion Catholig, sy'n cael eu ffafrio gan lawer o deuluoedd oherwydd eu dewis crefyddol.

Canfu arolygwyr fod mwyafrif y staff cymorth arbenigol yn addysgu'r dysgwyr hyn mewn ystafelloedd dosbarth arferol yn bennaf. Mae'r dull hwn yn helpu'r plant i ymgysylltu'n llawn â gweithgareddau arferol y cwricwlwm a dysgu Saesneg. Pan fydd plentyn yn ei chael yn anodd deall yr hyn sy'n cael ei ddweud, mae staff cymorth arbenigol, neu eu cymheiriaid, wrth law i ddarparu cymorth effeithiol ac i gyfieithu.

Mae'r canfyddiadau'n dangos bod plant gweithwyr ymfudol yn brydlon ac yn mynychu'r ysgol yn rheolaidd, yn gyffredinol. Maent hefyd yn llawn cymhelliant, yn enwedig wedi iddynt gael amser i ymgartrefu ym mywyd yr ysgol. Fodd bynnag, mae nifer sylweddol o'r plant hyn yn cymryd gwyliau estynedig i'w gwledydd cartref. Hefyd, canfu arolygwyr fod rhai dysgwyr hŷn ym Mlynyddoedd 10 ac 11 yn ei chael yn anodd cwblhau gwaith cartref, gan fod gan lawer ohonynt swyddi rhan-amser a/neu oherwydd eu bod yn edrych ar ôl brodyr a chwiorydd.

Mae Estyn yn argymell y dylai ysgolion ymelwa ar y cyfleoedd sy'n cael eu cyflwyno gan blant gweithwyr ymfudol i helpu dysgwyr eraill i ddeall a gwerthfawrogi amrywiaeth ddiwylliannol. Ar hyn o bryd, mae'r rhan fwyaf o ysgolion yn dathlu ac yn astudio'r gwahanol ddiwylliannau sy'n cael eu cynrychioli gan y dysgwyr hyn. Fodd bynnag, mewn rhai achosion, mae staff yn colli'r cyfleoedd niferus i addysgu materion amrywiaeth.

Am fwy o wybodaeth, gan gynnwys astudiaethau achos arfer orau o ysgolion lle y sefydlwyd systemau cyflwyno a chyfeillion i helpu'r dysgwyr hyn i ymgartrefu ym mywyd yr ysgol, edrychwch ar yr adroddiad llawn yn http://www.estyn.gov.uk/ThematicReports.asp

DIWEDD

Am fwy o wybodaeth cysylltwch â'r:
Tîm Cyfathrebu, y Cyfryngau a Marchnata, Estyn,
E-bost: cyfathrebu@estyn.gsi.gov.uk, Ffôn: 02920 446464

Nodiadau i Olygyddion:

- Comisiynwyd adroddiad Estyn 'Cymorth awdurdodau lleol ar gyfer plant gweithwyr ymfudol' gan Lywodraeth Cynulliad Cymru ac mae ar gael yn gyflawn yn www.estyn.gov.uk

- Estyn yw'r arolygiaeth dros addysg a hyfforddiant yng Nghymru. Mae Estyn yn comisiynu arolygwyr annibynnol (arolygwyr cofrestredig, arolygwyr tîm ac arolygwyr lleyg) ac Arolygwyr Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant i gynnal arolygiadau ar draws yr ystod lawn o ddarparwyr addysg a hyfforddiant.

- Mae Estyn yn arolygu ysgolion a safleoedd meithrin a gynhelir gan, neu sy'n cael arian gan awdurdodau addysg lleol (AALlau), ysgolion cynradd, ysgolion uwchradd, ysgolion arbennig, ysgolion annibynnol, addysg bellach, dysgu oedolion yn y gymuned, gwasanaethau cymorth ieuenctid, awdurdodau addysg lleol, addysg a hyfforddiant athrawon, dysgu yn y gwaith, dysgu troseddwyr, cwmnïau gyrfaoedd, ac elfennau addysg, arweiniad a hyfforddiant rhaglenni hyfforddi a ariennir gan yr Adran Gwaith a Phensiynau.

- Mae'r adroddiad hwn yn adeiladu ar adroddiad diweddar arall gan Estyn ar themâu cysylltiedig: *Effaith polisïau cydraddoldeb hiliol ysgolion – Mai 2009*

- Mae'r adroddiad hwn yn cyflwyno canfyddiadau Estyn ar ansawdd y ddarpariaeth i blant gweithwyr ymfudol, yn enwedig o wladwriaethau sydd wedi'u derbyn i'r Undeb Ewropeaidd (UE), sy'n mynychu ysgolion a gynhelir yng Nghymru. Mae'r adroddiad hefyd yn rhoi sylwadau ar y safonau sy'n cael eu cyflawni gan y plant hyn.

- Yn 2008-9, rhoddodd Llywodraeth Cynulliad Cymru £9.1m i awdurdodau lleol i gefnogi addysg benodol ar gyfer plant gweithwyr ymfudol. Bydd hyn yn cynyddu i £9.6m yn 2009-2010.

- Amcan y cyllid yw:

    - cefnogi disgyblion o gefndiroedd lleiafrif ethnig sy'n dysgu Saesneg fel iaith ychwanegol ac a allai fod yn tangyflawni; a

    - gwella safonau cyflawniad disgyblion o grwpiau lleiafrifoedd ethnig penodol y nodwyd eu bod mewn perygl o dangyflawni.